

Cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberffraw a gynhaliwyd yn  
Neuadd Glannau Ffraw, am 7 yh ar nos Fercher 20<sup>fed</sup> Chwefror 2019

**Presennol:** *J H Owens (Cad), A Jones, K Woods, M T Smithurst, C Davies, S Austin,  
Cyng Peter Rogers, A Freeman, A Crighton, Neil Foxhall*

**Ymddiheuriadau:** *R B Owen, R F Owen, E Evans, C G Topps, W Hughes, A Hughes, Cyng Bryan Owen*

**1. Cofnodion**

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 16/01/2019 eu derbyn yn gywir ar sail yr adroddiad saesneg a ddsbarthwyd gyda'r Agenda. KW yn cynnig, eilwyd gan CD.

**2. Cais Cynllunio – Trac Môn**

Estynodd y Cadeirydd groeso i Mr Andrew Crighton, Mrs Annette Freeman a Mr Neil Foxhall yn cynrychiolir Trac Môn i'r cyfarfod. Mr Crighton yn egluro fod angen datblygu'r trac er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gystadleuol gan fod lleoliadau eraill yn datblygu ac yn gwella. Datblygiadau arfaethedig yn cynnwys y canlynol:

- Newidiadau amrywiol i'r trac
- Ehangu'r llain
- Siop, ysgol rasio ac adeilad swyddfa
- Gorsaf danwydd
- Caffi, bwyty a theras
- Adeilad monitro un llawr
- Adeilad cawodydd un llawr
- Adeilad un llawr pryd ar glud
- Modurdy
- Canolfan feddygol i'w lleoli wrth y fynedfa
- Y swyddfa i'w lleoli wrth y fynedfa

Dywedodd y Cadeirydd fod y Cyngor Cymuned yn gefnogol o'r cais. Clerc wedi cyflwyno sylwadau fel a ganlyn mewn perthynas â'r cais ym mis Tachwedd:

- Cyfleodd cyflogaeth i drigolion lleol
- Budd i'r gymuned o dan Adran 106
- Arwyddion ac ati yn ddwy-ieithog.

**3. Materion yn codi o gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd 21/11/2018**

**3.1 Gwefan** – JHO i drafod gyda Mr Stallwood. Clerc i gysylltu ag Anglesey Computer Solutions

**3.2 Croesffordd Dothan**– arwyddbost newydd– Clerc i wneud ymholiadau.

**3.3 Cae chwarae**–Anfoneb am dynnu'r offer sydd wedi ei ddirodi gan H R Hughes £140.00. Wedi ei hawdurdodi i'w thalu.

**3.4 Gor-dyfiant ar y ffin rhwng y llwybr troed ym Maes Llywelyn a'r cae chwarae**- KW yn adrodd fod Mr Liam Jones wedi ymweld â'r safle. Y mater i'w drafod yng nghyfarfod mis Mawrth.

**3.5 Llwybr wedi gor-dyfu**– rhwng 1 a 6 Tan Refail o'r ffordd yn arwain tuag at Diwydfa. Clerc i wirio os yw'r llwybr yn llwybr cyhoeddus dynodedig.

**3.6 Meinciau ym Min y Mor** – CD yn adrodd fod y meinciau yn parhau i fod ar y safle, fodd bynnag deallir fod y Cyngor Sir yn bwriadu gwneud gwaith adnewyddu sylweddol ym Min y Môn. Bydd hyn yn cynnwys gwaith ar yr ardal tu allan.

**3.7 Aberffraw mewn blodau** – KW yn adrodd fod cymorth ariannol ar gael gan Drac Môn. CD i ddarparu rhestr o'r anghenion.

**3.8 Ffordd Glan y Mor**– Ymateb wedi ei dderbyn gan Mr Barri Jones, Swyddog Priffyrdd mewn perthynas â'r cais ail-wynebu'r ffordd. Mr Jones yn datgan nad oes cyllid ar gael i ail-wynebu'r ffordd gan fod angen rhoi blaenoriaeth i briffyrdd. Mr Jones yn datgan, gan fod y ffordd o dan ddwr yn ddyddiol, y byddai'r llanw uchel yn y gaeaf yn difrodi'r gwyneb. Bydd y Gang Gymunedol yn gwneud peth gwaith trin yn y dyfodol agos.

**4. Ceisiadau Cynllunio**

Trac Môn – (gweler Eitem1)

Cadeirydd ..... Clerc.....

**5. Gohebiaeth**

**5.1 Clerc** – Llythyr ymddiswyddo gan y Clerc. Hysbyseb i'w darparu erbyn y cyfarfod nesaf. Bydd y Clerc presennol yn aros yn y swydd hyd at fis Mehefin i sicrhau fod y dogfennau perthnasol wedi eu cyfwyno ar gyfer Archwiliad am y flwyddyn 2018-2019.

**5.2 Dani Robertson – Swyddog Awyr Dywyll**– Llythyr yn gofyn am gyfle i drafod cadwraeth awyr dywyll gyda'r Cyngor Cymuned. Clerc i estyn gwahoddiad i gyfarfod mis Mawrth.

**5.3 Un Llais Cymru**– Aelodaeth 2019-2020. Mae'r gost am y flwyddyn yn £111.00. Cynigwyd gan MTS ac eilwyd gan AJ y dylid adnewyddu'r tanysgrifiad am y flwyddyn.

**5.4 Swyddfa Archwilio Cymru**– Adroddiad ar Drefniadau Archwilio Mewnol Cyngorau Tref a Chymuned. Cyngor Cymuned Aberffraw wedi ei enwi yn yr adroddiad fel “cyngor ble mae'r archwilydd mewnol wedi datgan fod ganddo bapurau gwaith ond nid yw wedi eu darparu”.

**5.5 Cyngor Sir Ynys Môn**– Ebst ynglyn a thipio anghyfreithlon ar dir rhwng y wal a ffens y cae chwarae ym Maes Llewelyn. KW / JHO i ymchwilio.

**6. Unrhyw fater arall**

**6.1 Archwiliad Mewnol** – Clerc yn adrodd fod Mr Foulkes yn bwriadu codi ffi o £100.00 am gyflawni archwiliad ar gyfer y flwyddyn 2018-19. Cynigwyd gan KW ac eilwyd gan MTS y dylid derbyn y telerau.

**6.2 Archwiliad y fynwent**– MTS yn adrodd fod archwiliad wedi ei gynnal. Nodir fod un bedd hynafol angen sylw. JHO i drefnu fod R Hughes, Ymgymwrwr Angladdau yn cymryd camau i sicrhau fod y bed yn ddiogel.

**6.3 Cae chwarae**– Adroddiadau o ddrain yn tyfu yn gornel wrth ochr y ffens newydd. KW i ymchwilio.

**7. Cyllid****Taliadau:**

16/02/2019	CP Aberffraw	Rhodd	£ 200.00
------------	--------------	-------	----------

**Derbyniadau:**

16/02/2019	O Hughes	Rhent	£ 233.00
16/02/2019	Preswylfa Cyf	Y fynwent	£ 45.00
16/02/2019	R&CP Hughes	Y fynwent	£ 75.00
16/02/2019	R&CP Hughes	Y fynwent	£ 45.00
16/02/2019	Preswylfa Cyf	Y fynwent	£ 120.00